Ariennir gan

# CADAIR CAE CHWARAE LLYN Y FELIN

Mae'r daith - a'r stori - yn cychwyn yn y cae chwarae sydd yn union o dan y bont sy'n arwain at fynedfa i Gastell Harlech.

Dyma chi yn eistedd, yn gyfforddus gobeithio, yng nghanol Llyn y Felin - ond yn lwcus i chi does dim dŵr yn y llyn bellach, neu mi fyddai'n rhaid i chi nofio! Oedd mi roedd y cae chwarae hwn ar un adeg yn lyn. Llyn oedd yn rhoi'r dŵr i droi'r olwyn oedd yn gwneud i'r felin weithio.

Ond ers talwm oedd hynny. Ers talwm iawn. Mae yna lawer iawn o ers talwm yn Harlech. Mae o'n le llawn hanes a chwedlau a thraddodiadau. Ac ers talwm iawn iawn iawn, iawn iawn iawn iawn, cyn bod y Castell hyd yn oed wedi ei adeiladu, roedd dyn or enw Cuneddau ap Edern, neu Cuneddau Wledig yn byw yng Nghymru, ac roedd ganddo o leiaf wyth mab ac un ferch. Enw un o'r meibion oedd Meirion.

A stori am Meirion ydi'r stori hon. Fel bron pob stori dda does neb yn siwr o ble y daeth Efallai ei bod hi yn stori wir - neu efallai ddim - ond mae 'na wirionedd ynddi.
Efallai nad ydi hi yn chwedl, yn stori draddodiadol, ond mae na chwedlonieth ynddi.
Efallai y byddwch yn darllen y stori, efallai y byddwch yn gwrando ar y stori , ond dwi'n siwr y byddwch yn ei mwynhau

Mae'n felysgybolfa o stori, yn llawn haenau lliwgar o hanes a thraddodiad a dychymyg. Rhyw dderyn bach ddywedodd y stori wrtha i.

**Crawc. Crawc Crawc.**
**Jac-do ar fin clwydo.**
**Drudwy yn heidio.**
**A'r gwylannod yn udo**
**i lawr ar y traeth.**

**Roedd hi'n noson dywyll, oer yng nghanol y gaeaf, pan gyrhaeddodd Meirion yn ei ôl i Harlech. Roedd yn falch o gael cyrraedd adref wedi teithio cryn bellter, ac roedd yn lluddedig. Wedi ymlâdd. Wedi blino'n lân. Yr unig beth roedd o eisiau oedd gwely clyd o flaen y tân.**

**Tynnodd ei esgidiau, ei het a'r dorch aur a wisgai o gwmpas ei wddw.**

**Y dorch yma oedd yn dangos ei fod yn arweinydd. Ond nid torch aur gyffredin oedd hon. O nage wir.**

**Hon oedd Torch Aur Harlech ac fe wyddai pawb nad aur yn unig oedd yn y dorch. O nage wir. Roedd hi'n llawn pwerau hudol a rhyfeddol hefyd. Gafaelodd Meirion yn y dorch a defnyddio ei lawes i'w rhwbio nes roedd y dorch yn disgleirio yng ngolau'r tân**

**"Mae'r dorch 'ma yn union 'run lliw a'r haul yn machlud yma yn Harlech," meddyliodd Meirion, "ac nid oes fachlud tebyg i'r machlud yn Harlech".**

**Gwenodd wên lydan. Roedd yn falch o fod wedi cyrraedd adref. Rhoddodd y dorch yn ei hôl o amgylch ei wddf. Dyna lle roedd hi i fod. O amgylch gwddf yr arweinydd. Allai neb arall ei thynu hi oddi yno.**

**Gorweddodd Meirion i lawr ar ei wely a lapio ei hun yn y garthen gynnes. Syllodd ar fflamau'r tân yn dawnsio fel tonnau o aur. Cyn pen dim roedd Meirion yn chwyrnu cysgu.**

CADAIR BRON Y GRAIG

Dyma chi bellach ym mharc Bron y Graig. Lle tawel braf yng nghysgod coed. Mae'r fainc sydd yma ar siap deilen. Mae fel petai deilen enfawr wedi cwympo o'r coed. Gair arall am ddeilen yw dalen. A gair arall am dalen yw tudalen. Ac mae'n bryd i ni droi tudalen, troi'r ddalen, i barhau efo stori Meirion.

**Roedd hi bellach yn ganol nos. Roedd hi'n noson dawel, dawel. Yn noson dywyll, dywyll, a'r tân yn dal i ddawnsio'n donnau o aur, ond bod y fflamau erbyn hyn yn dipyn llai a'r tân yn gloewi yn goch, goch. Doedd dim smic i'w glywed. Ddim hyd yn oed swn chwyrnu, oherwydd roedd Meirion erbyn hyn yn cysgu'n drwm, drwm, yn rhy drwm i chwyrnu.**

**Yn sydyn neidiodd rhywbeth ar y gwely ac mi ddeffrodd Merion yn llawn dychryn**

**"Pwy sy' 'na," gwaeddodd " Pwy sy' 'na?"**

**"Prrrrrr Prrrrr Prrrr," atebodd y gath a rhwbio'i phen ar ysgwydd Meirion.**

**Chwarddodd Meirion.**

**"Paid ti a dweud wrth neb bod cath wedi fy nychryn i," meddai gan gosi pen y gath" neu fydd neb yn meddwl mod i'n arwr ddigon dewr i fod yn arweinydd!"**

**"Prrrrr" meddai'r gath cyn llamu i waelod y gwely a thylino gwâl fach iddi hi ei hun yn y garthen.**

**Cwympodd Meirion yn ôl i'w drwmgwsg a'i draed yn gynnes, gynnes gan fod y gath yn well na'r un botel ddŵr poeth.**

**Roedd popeth yn dawel, dawel unwaith eto. A Meirion a'r gath yn cysgu'n sownd. Doedd dim smic i'w glywed. Roedd hi fel y bedd. Yn dywyll, dywyll.**

Ac yn y tywyllwch hwnnw 'roedd cysgodion yn symud yn araf, araf, araf. Cysgodion llwyd. Cysgodion llechwraidd. Cysgodion ceffylaidd.

Mae llawer o straeon a chwedlau yng Nghymru am y Ceffyl Dwr. Mae'r Ceffyl Dwr yn byw mewn pyllau a llynoedd, mewn afonydd a rheadrau. Weithiau mi wnaiff y Ceffyl Dwr geisio eich denu i eistedd ar ei gefn, ond wedyn bydd yn carlamu fel y gwynt ac yn hedfan fry, fry i'r awyr cyn diflanu fel niwl, ac mi fyddwch chithau yn cwympo i'r ddaear. Dro arall, mi ddaw allan o'r dwr a'i lygaid yn fflachio, a'i ffroenau yn chwythu, yn gwehyru'n fygythiol cyn ymosod yn filain arnoch chi.

Ond ai Ceffyl Dwr oedd yn symud fel cysgod yn siambr Meirion y noson honno?

Roedd y tân bron a diffodd erbyn hyn. Teimlodd Meirion rhywbeth yn cyffwrdd yn ysgafn rownd ei wddw, a rhwng cwsg ac effro sgubodd ei law ar draws ei wyneb i fflicio cynffon y gath o'r ffordd.

"Cer a dy gynffon o ngwyneb i," medda fo gan droi drosodd er mwyn mynd yn ôl i gysgu.
Ond dyma fo yn teimlo pwysau'r gath ar ei draed a meddyliodd

"Os ydi'r gath yn cysgu ar fy nhraed, sut yn y byd mae ei chynffon hi rownd fy ngwddw ? "

Agorodd ei lygaid ond allai o weld dim byd yn y tywyllwch. Teimlodd y gynffon yn troelli yn dynach ac yn dynach am ei wddw. Gafaelodd Meirion yn y gynffon a cheisio ei thynu o'i wddw ond roedd y gynffon yn gafael fel gelen. Yn sydyn, teimlodd ail a thrydedd cynffon yn crafangu am ei wddw a'i war a'i frest. Y Dorch Aur ! Roedd y cynffonnau yn ceisio dwyn y Dorch Aur! Roedd yn amhosibl tynu'r dorch oddi ar wddw Meirion. Roedd hynny yn hysbys i bawb. Ond roedd y cynffonau yn trio eu gorau! Ceisiodd Meirion ymladd efo'r cynffonnau, ond roedd gormod ohonynt yn gwasgu, gwasgu, gwasgu

**Deffrodd y gath gyda Miiiiiaaaaaaaawwwwwwww ddychrynllyd, llamu o draed y gwely, ac ymosod ar berchennog un o'r cynffonnau. Roedd y wawr yn torri erbyn hyn ac fe welodd y gath ddau lygaid mawr crwn yn syllu i lawr arni, ac ymhen chwinciad roedd trwyn hir, anferth nesaf at drwyn smwt y gath, ac fe gafodd honno ei hyrddio gan y trwyn anferth i gornel bellaf y llofft. Roedd y gath druan yn gweld sêr !**

**Pan ddiflanodd y sêr doedd dim golwg o Meirion yn y llofft. Dim golwg o gwbl.**

**Aeth y gath yn ei hôl at wely Meirion.**
**Edrychodd o dan y garthen. Na doedd Meirion ddim yno.**
**Edrychodd o dan y gwely. Na doedd Merion ddim yno chwaith.**
**Edrychodd ymhob twll a chornel hyd yn oed i fyny'r simdde ond doedd dim sôn am Meirion. I ble'r aeth o tybed ?**

**Penderfynodd y gath aros yno, ar y gwely, nes y byddai Merion yn dod yn ei ôl.**

## CADAIR PEN Y GRAIG.

Ydi mae'r olygfa yn ysblennydd o Ben y Graig yn Harlech.
Y wybren - yr awyr, a'r gorwel - yr 'Hen linell bell nad yw'n bod' .
A'r môr a'r holl fynyddoedd. Mae enwau'r bryniau a'r mynyddoedd wedi eu nodi ar y llechen o flaen y gadair stori.
Mae'r wybren a'r gorwel, y môr a'r mynyddoedd wedi edrych fel hyn ers blynyddoedd ar flynyddoedd. Ers dyddiau chwedlonol y Mabinogi.
"Bendigeidfran fab Llyr oedd frenin coronog Ynys Prydain, ac un prynhawn, roedd o'n eistedd ar garreg ger ei lys yn Harlech, yn edrych dros y môr." Dyna sut mae ail gainc y Mabinogi yn dechrau.
Cawr Mawr y Mabinogi oedd y brenin Bendigeidfran fab Llŷr. Cerddodd drwy'r môr i Iwerddon i achub ei chwaer Branwen.

**Dyna drueni nad oedd gan Meirion frawd mawr fel cawr i'w achub o . Roedd y wawr wedi torri erbyn hyn a Meirion yn cael ei lusgo gerfydd ei wddw gan gynffonau tri creadur dychrynllyd iawn. Morfeirch. Ia Morfeirch anferthol.**

**Ar Ben y Graig dyma nhw'n stopio yn sydyn. Sylwodd Meirion fel roedd y Morfeirch yn newid eu lliw yn raddol wrth i'r haul godi. Lle gynt yr oeddent yn lwyd tywyll, roeddent rwan yn wyrdd golau a mymryn o binc ar eu cefnau. Roedd llygaid mawr crwn yn troi yn eu pen, ac yn edrych i gyfeiriadau gwahanol! Edrychodd un o'r llygiad i lawr ar Meirion, a gallai yntau weld reit i fyny swch, sef trwyn, y Morfarch. Teimlodd Meirion eu hun yn cael ei sugno i fyny'r swch fel darn o lego yn diflannu i fyny'r hwfer. Ac yna fe chwythwyd o allan eto fel hen sneipen. Cwympodd yn un swp ar y llawr, a baglodd ar ei hyd wrth geisio codi.**

**Roedd y cynffonau cryfion yn dal yn dynn o hyd ym Meirion, ond bellach roedd y cynffonau wedi llithro i lawr at ei draed, ac roedd ei wddw yn rhydd o'u gafael. Drachtiodd lond ysgyfaint o awyr hallt, iach .**

**Roedd un Morfarch, oedd a swch fwy na'r ddau arall yn ceisio snwyro am y Dorch Aur, yn ceisio ei thynu oddi ar wddw Meirion efo'i gynffon. Ond methu a wnaeth. Yna, roedd yn ceisio ei sugno oddi ar Merion ond bob tro roedd y Morfarch yn sugno roedd Meirion hefyd yn cael ei dynu i fyny i'r swch, fel cwch i ogof, ac allan eto. I'r swch, fel cwch i ogof , ac allan eto. Trosodd a throsodd nes roedd Meirion yn teimlo fel petai ar drampolîn.**

**Clywodd Meirion swn clecian uchel, a rhyw chwyrnu a gryngian.**

**"Cliiiic cliiiiic. Psachsach Grrrch"**
**"Crrrch. Wwwsht."**
**"Cliiiiiiiiiiic. Cliiiiiiiiic "**

**Y Morfeirch oedd wrthi. Roedd yn amlwg eu bod yn siarad efo'i gilydd, ond nid oedd Meirion yn deall be' roeddent yn ei ddweud. A'r peth nesaf, er mawr synod, dyma nhw yn dechrau siarad Cymraeg efo fo!**

**"Rho'r Dorch Aur i ni ac fe gei di fynd yn rhydd," meddai un ohonynt, mewn llais bach, gwichlyd.**

**"Ia rho'r Dorch Aur i ni." meddai'r lleill mewn lleisiau yr un mor wichlyd.**

**Roedd clywed creaduriaid mor anferth yn siarad efo lleisiau bach gwichlyd yn goglais Meirion, ac fe ddechreuodd biffian chwerthin**

**"Pam wy ti'n chwerthin?" holodd un.**

**"Mae'ch lleisiau chi yn depycach i leisiau llygod bach yn hytrach na Morfeirch anferthol!" meddai, yn dal i chwerthin.**

**"A ti'n meddwl fod gen ti yr hawl i wneud hwyl am ein pennau? Wyt ti?," meddai un Morfarch yn wichlyd ond yn fygythiol**

**"Wel, falle bod ein lleisiau ni yn wichlyd," meddai un arall o'r Morfeirch yn bigog," ond o leiaf da ni yn gallu siarad efo chdi yn dy iaith dy hun; wyt ti yn gallu siarad ein hiaith ni?" A dyma nhw yn dechrau clician a chwyrnu a gryngian eto.**

**Roedd yn rhaid i Meirion gyfaddef nad oedd yn gallu siarad Morfarcheg! Ac fe roddodd y gorau i chwerthin.**

**Ceisiodd fod yn gwrtais, ac edrych ar wynebau'r Morferich. Ond oherwydd bod eu llygaid yn troi yn eu pennau i bob cyfeiriad, wyddai Meirion ddim ar ba un i edrych. Roeddent hefyd yn newid eu lliw; erbyn hyn yn wyrdd llachar. yr un lliw a'r gwair a'r dail.**

**"Mae'n rhaid i ti roi y Dorch Aur i ni," medda un ohonynt eto. "Rydym ni angen ei bwerau hud."**

**"Na. Allai ddim" meddai Meirion. "Dwi angen y Dorch Aur er mwyn gallu tywys ac arwain fy mhobl."**

**"Ond mae ein hangen ni yn fwy na dy angen di a dy bobl" crefodd un o'r Morfeirch**

**"Na fyth, Wna i fyth, fyth ildio" gwaeddodd Meirion**

**"Os felly does gennym ni ddim dewis" meddai'r Morfarch efo'r swch fwyaf.**

**"Be' da chi 'n feddwl? " holodd Meirion**

**Yr eiliad nesaf roedd y swch fawr yn ei sugno i fyny, ac i fyny, ac i fyny nes y diflannodd Meirion a'r Dorch Aur i grombil y Morfarch.**
**"Prrrrchh sschh , Clic clic clic" meddai un ohonynt.**
**"Ia dowch, ffor' 'ma, heibio'r ogof , mae'n lwybr buan i lawr at y traeth." meddai un arall mewn llais gwichlyd."**

CADAIR Y TRAETH

Ar lan y môr mae rhosus cochion
Ar lan y môr mae lilis gwynion
Ar lan y môr mae pob rhinweddau
Ar lan y môr 'de chi a minnau !

Traeth Harlech . Un o draethau gorau Cymru. Milltiroedd o dywod melyn, meddal. Twyni. Tywod. Tonnau.

A rhywle o dan y tonnau yna roedd Meirion. Neu dyna'r sôn beth bynnag.

**Aeth chwe mis heibio ers i Meirion gael ei sugno i fyny swch un o'r Morferich anferth a diflanu i'w grombil. Tybiai pawb bod y Morfeirch wedi cipio Meirion a mynd a fo i'w teyrnas o dan y tonnau. Roedd y gath yn dal i orwedd yn obeithiol ar wely Meirion, yn dal i aros iddo ddod adre.**

**Roedd trigolion Harlech yn dal i obeithio hefyd. Gobeithio y byddai pwerau'r Dorch Aur yn rhai digon hudol i dywys Meirion yn ôl adref. Yn ôl atyn nhw.**

**Yr oeddent wedi trefnu bod gwyliwr yn aros ar y traeth ddydd a nos. Yn barod i groesawu Meirion. Ond, wrth i'r dyddiau droi'n wythnos; a'r wythnosau yn fisoedd ; a'r misoedd yn dymhorau roedd pawb yn dechrau anobeithio.**

**Yna un noson braf, ynghanol haf a'r haul yn diflannu yn araf dros Benrhyn Llŷn, roedd Glesni, un o'r gwylwyr yn crwydro'r traeth. Uwch ei phen roedd gwylannod yn mwynhau hofran yn ddiog a'r yr awelon cynnes o dan eu hadenydd. Draw uchwben y dre roedd brain yn crawcian. Wel, brain mae pobl Harlech yn eu galw nhw, ond Jac-dos ydi'r rhan fwyaf.**

**Yn sydyn glaniodd Jac-do ar ysgwydd dde Glesni. Ac un arall ar y chwith. Ac un arall ar ei chorun. Mwythodd Glesni blu y tri Jac-do tra roeddent hwythau yn ei phigo'n ysgafn a chrawcian yn ei chlust.**

**"Na, na does dim sôn amdano. Dal i aros. Dal ati i chwilio. Byw mewn gobaith yn de?" meddai Glesni wrth yr adar sgleiniog a'u pigau duon a'u llygaid gleision. "Ffwrdd a chi at eich gwaith te" meddai.**

**Hedfanodd y tri Jac-do i ffwrdd, a glanio ar y rhesen o wymon a broc oedd wedi ei gadael yno gan y llanw. Doedd dim yn well gan y Jac-do's na phigo a chrafu ymysg y gwymon, yn y gobaith y byddent yn dod o hyd i rhywbeth. Rhywbeth. Rhyw drysor bach falle. Mae Jac-dos wrth eu boddau efo unrhywbeth sgleniog, gloyw. Ac roedd angen glain o obaith arnyn nhw a gweddill trigolion Harlech. Roedd pawb ar goll heb Meirion.**

**Byddai'r Jac-dos yn pigo a chrafu, yn chwilio a chwalu yn y gwymon a'r broc bob dydd. Weithiau byddai ambell i wylan yn eu herlid a byddai dipyn o ffrae am sbel. Ond ar y cyfan roedd y gwylannod a'r Jac-dos yn cyd-fyw yn weddol gytun. Gwyliodd Glesni nhw a gwenu.**

**Rhai diwyd oedd y Jac Dos.**
**Pigo a chrafu. Chwilio a chwalu.**
**Pigo a chrafu. Chwilio a chwalu.**

**Yn sydyn dyma un ohonyn nhw yn dechrau crawcian yn uchel a chrafu yn ffyrnicach.**

**Crawc Crawc Pigo**
**Crawc Crawc Crafu**

**A dyma'r ddau Jac Do arall yn hopian ato ac yn ymuno yn y rhialtwch**

**PigPigPigo. Crafcrafcrafu. Crawc crawc crawc!**
**PigpigPigo. Crafcrafcrafu. Crawc crawc crawc!**

**Brysiodd Glesni draw atynt i weld beth oedd yn achosi y fath gynnwrf. Gwelai ddarn o hen raff a dolen hen gadwen wedi hen rydu; gwelai chwain tywod yn sboncio a phryfed o bob math yn neidio; ond dim byd anghyffredin. Ac yna gwelodd ronyn bychan, bach o sglein ynghanol twmpath o wymon sych. Roedd y Jac-dos yn pigo a phigo. Roedd y gronyn yn sgleinio a sgleinio. Penliniodd Glesni ac ymuno yn y crafu a'r tyrchu. Rhawiodd eu dwylo drwy'r gwymon a'r tywod nes dad-orchuddio'r peth oedd yn sgleinio.**

**Gafaelodd ynddo a neidio o hapusrwydd a'i llygaid y llawn dagrau llawenydd. Ond yr eiliad nesaf roedd ar ei gliniau a'u dagrau yn ddagrau o dristwch. Wyddai hi ddim ai chwerthin a ddylai neu wylo . Roedd hi mor, mor hapus ei bod wedi dod o hyd i'r Dorch Aur! Torch Aur Harlech ynghanol y gwymon a'r nialwch.**

**Y Dorch Aur! Ond, doedd dim sôn am Meirion. Ac roedd hynny yn gwneud Glesni yn hynod o drist - er ei bod yn hynod o hapus ar yr un pryd. Sut bod hynny yn bosibl !**

**Roedd y Jac-dos wedi cynhyrfu'n lân ac yn crawcian yn llafar hyd y lle; mi gynhyrfodd hynny y gwylannod ac mi ddechreuodd rheini ubain dros y traeth; mi gynhyrfodd hynny holl gŵn yr ardal nes roedd rheini yn cyfarth nerth eu pennau a rhedeg am y traeth; mi gynhyrfodd hynny drigolion Harlech i gyd ac mi redodd pob un ohonynt ar ôl y cwn i lawr at y traeth er mwyn cael gweld beth oedd achos y cynnwrf. Yr unig un i beidio a chynhyrfu oedd y gath; roedd hi'n dal i gysgu ar y gwely !**

**Pan welodd trigolion Harlech y Dorch Aur, dechreuodd pawb orfoleddu.**

**"Mae Meirion yn ei ôl! Mae Meirion yn ei ôl!" Gwaeddodd y dorf.**

**"Nacydi," meddai llais unig Glesni. "Mae'r dorch yn ei hôl, ond does dim sôn am Meirion."**

**Trodd gorfoledd y dorf yn dawelwch llethol.**

**"Ond mi ddaw. Mi ddaw. Mae o'n bownd o ddod i nôl y Dorch Aur." meddai Glesni drachefn.**

**Wyddai neb beth i'w wneud. Ddylen nhw aros ar y traeth neu ddychwelyd i’w cartefi? Eisteddodd rhai ar y traeth a dechrau canu. Roedd eraill yn dawnsio.**

**Roedd rhai yn tynu lluniau yn y tywod. Lluniau o'r Dorch Aur. A Jac-dos. A Morfeirch anferth. Roedd hyd yn oed un llun o gath yn cysgu ar wely!**

**Ysgrifennodd eraill ambell air yn y tywod. Gair. Neu gerdd. Neu neges.**

**Arhosoddd pawb ar y traeth nes roedd yr haul wedi machlud dros Benrhyn Llŷn. Gwyliodd pawb y wybren yn newid yn raddol o goch i binc i las tywyll, tywll yr un lliw a phlu Jac-do. Ond doedd dim sôn am Meirion.**

CADAIR CAE CHWARAE SIOR y 5ed

Cadair arall ynghanol cae chwarae arall. Ac mae digon o le i chwarae yma. Neu i eistedd a dychmygu. Dychmygu pob math o straeon.

Mae llawer o bobl Harlech a'r cyffiniau wedi dychymygu straeon. Rhai wedi eu hysgrifennu a'u cyhoeddi nhw. Pobl fel Ellis Wynne Lasynys gyhoeddodd 'Gweledigaethau'r Bardd Cwsg' dros dri chant o flynyddoedd yn ôl; ac yn yr 20fed ganrif T Rowland Hughes, Rhiannon Davies Jones, Dyddgu Owen, Robert Graves a Richard Hughes. Ar draws y ffordd i'r cae mae Ysgol Ardudwy, ac mae nifer fawr o gyn ddisgyblion Ysgol Ardudwy wedi dychmygu ac ysgrifennu a chyhoeddi straeon o bob math yn Gymraeg ac yn Saesneg - Mari Strachan , Robin Llywelyn, Phillip Pullman, John Sam Jones, Haf Llewelyn, Nia Medi, Emlyn Gomer.

Ia lle da iawn i ddychmygu ynddo ydi Harlech.

A phwy fyddai'n gallu dychymygu y byddai Morferich yn gallu creu y fath anrhefn ? Ond dyna wnaethon nhw.

**Ar ôl i Glesni ddarganfod y Dorch Aur ynghanol y gwymon ar y traeth, bu pawb yn aros i Meirion ddychwelyd. I ddechrau roedd hi'n braf, a'r dyddiau yn hir, a phawb yn mwynhau bod ar y traeth yn canu a dawnsio a thynnu lluniau a 'sgwennu. Ond wrth i 'r haf droi yn hydref, a'r dyddiau fyrhau a'r tywydd oeri, doedd dim cymaint o awch am fod allan yn yr elfennau. Roedd mwy a mwy yn cadw i'w tai. Yn aros dan do yn glyd ac yn gynnes. Ond roedd Glesni yn dal i dreulio amser ar y traeth. Yn gwylio. Rhag ofn. Ac roedd y Jac-dos yn gwmni iddi.**

**Roedd hi'n noson dywyll, oer, yng nghanol y gaeaf, ac roedd y môr yn berwi.**

**"Mae storm ar y ffordd," meddai Glesni wrth y Jac-dos**

**"Crawc crawc crawc," cytunodd yr adar.**

**Udai'r gwylannod uwch ben wrth gael eu taflu o gwmpas gan y gwynt, ac roedd eu crefu a'u crio yn codi ofn yng nghalon Glesni.**

**Roedd y tonnau yn cynyddu. Y gyntaf yn un fawr, yr ail yn fwy, y drydedd yn fwy eto ac erbyn y seithfed roedd fel mynydd anferth yn gwyro uwch ei phen.**

**Rhedodd Glesni nerth ei thraed. Rhedodd at y twyni.**
**Hedodd y Jac-dos nerth eu hadenydd. Hedfan uwchben y twyni.**

**Chwyddodd y don yn uwch ac yn uwch ac yn uwch gan gipio pawb a phopeth oedd yn ei ffordd**

**Hedfanodd y Jac-dos, gan grawcian yn uchel i geisio rhybuddio trigolion y dre. Llwyddodd y mwyafrif i gyrraedd tir sych o afael y don wrth i honno dorri ,o'r diwedd, yn erbyn godre'r graig gan hyrddio pawb a phopeth oedd yn ei gafael blith draphlith dros y lle.**

**Roedd pawb yn syfrdan. Wedi dychryn gormod i ddweud na gwneud dim; yn rhy ofnus i gynhyrfu. Roedd y môr wedi gorlifo dros bopeth yn union fel y gwnaeth dros Gantre'r Gwaelod. Oedd, mi roedd hi'n noson dywyll yn Harlech y noson honno ; ymhob ystyr.**

**Ac yn y tywyllwch hwnnw 'roedd cysgodion yn symud yn araf, araf, araf. Cysgodion llwyd. Cysgodion llechwraidd. Cysgodion ceffylaidd.**

**Daeth llu o Forfeirch allan o'r môr. Yn clecian a chwyrnu a gryngian, a'u cynffonnau yn chwipio'r tonnau.**

**"Y Dorch Aur. Rhaid amddiffyn y Dorch," gwaeddodd rhywun**

**"Ia'r Dorch. Mae nhw eisiau'r Dorch Aur," meddai rhywun arall.**

**Heb rybudd o gwbl ymosododd twr anferth, trystiog o Jac-dos ar y Morfeirch gan grawcian yn fyddarol a phigo a chrafu eu llygaid a'u cynffonau. Ymunodd haid o wylanod yn y frwydr, a gan ei bod yn aeaf, roedd y drudwy hwythau yn helpu. Ond dal i ymlwybro yn eu blaenau, yn nes ac yn nes wna'r Morfeirch, ar waetha ymosodiad milain yr adar.**

**Ceisiodd y trigolion amddiffyn y Dorch Aur drwy ei thaflu o'r naill i'r llall, er mwyn rhwystro'r Morfeirch rhag cael gafael arni. Roeddent hwythau yn chwipio a chwalu pawb efo'i cynffonau mileinig.**

**Taflodd un o'r trigolion y Dorch Aur fry' fry' fry' i'r awyr ac fe'i daliwyd gan adar. Ond nid gan y Jac-dos, na'r Gwylannod na'r Drudwy.**

**Daliwyd y Dorch Aur gan Adar Rhiannon - yr adar hudol rheini sy'n ymddangos o dro i dro uwch ben Harlech.**

**Hedfannodd Adar Rhiannon yn uwch fyth, yn yr awyr. Ac fel gŵyr pawb, pan mae Adar Rhiannon yn hedfan yn uchel fry, fry, fry uwchben Harlech mae popeth yn gostegu. Yn tawelu. Yn llonyddu. Ac mae bywyd yn brafiach.**

**Ac felly y bu. Roedd fel petai amser wedi rhewi. Popeth yn dawel, dawel heblaw am ganu llesmeiriol adar Rhiannon.**

**I ganol y tawelwch hwn daeth Meirion yn ei ôl, yn cario Glesni yn ei freichiau. Roedd pawb wedi eu syfrdanu.**

**"Dowch brysiwch," meddai "mae Glesni angen cymorth."**

**Rhedodd nifer o'r trigolion ato a chymrryd gofal o Glesni druan oedd yn gorwedd yn ddiymadferth yn ei freichiau.**

**"Pam yr holl frwydro? A'r ymosod . A'r brifo. Y dwyn? I be' ?" holodd Meirion y Morferich**

**"Cliiiic cliiiiic. Psachsach Grrrch" "Crrrch. Wwwsht." "Cliiiiiiiiiiic. Cliiiiiiiiic," atebodd y Morfeirch ar draws eu gilydd.**

**"Dwi'n gwybod. Dwi'n gwybod. Ond os newch chi ymddiried ynof fi, mi ga' i air efo fy mhobl. Dwi'n sicr y gallwn ddod i rhyw fath o gytundeb," meddai Meirion.**

**Eisteddodd y trigolion a Meirion a'r Morfeirch ynghyd.**

**Esboniodd Meirion wrth y trigolion ei fod wedi treulio cyfnod yn nheyrnas y Morferich. Teyrnas ryfeddol o hardd ac amrywiol. Dywedodd ei fod wedi gwrando ar eu straeon; wedi dysgu eu hiaith a'u caneuon. Wedi dod i ddeall eu gofidiau a'u hofnau.**

**"Mae Teyrnas y Morfeirch yn cael ei difetha a'i dinistrio gan elynion cudd. Mae teyrnas Y Morfeirch yn cael eu gwladychu gan sbwriel a nialwch eu gelynion. A dyna pam eu bod nhw angen pwerau hud y Dorch Aur - er mwyn darganfod beth neu pwy yw y gelynion. " esboniodd Meirion wrth ei bobl.**

**"Ond ein Torch Aur ni yw hi. Ni, bobl Harlech, sydd biau'r Dorch Aur", gwaeddod un o'r trigolion**

**"Ia dwi'n gwybod," atebodd Merion, "ond dwi ddim yn meddwl bod angen pwerau hud y Dorch Aur er mwyn datrus problem y Morferich,"**

**Edrychodd pawb arno yn ddryslyd.**

**Edrychodd Meirion ar ei bobl gan ddweud "Y ni," meddai" chi a fi ydi gelynion y Morferich."**

**"Be?" meddai'r bobl mewn synod "ond y NHW ydi ein gelynion NI! Y NHW sydd yn ymosod arnom NI ac yn cipio ein harweinydd ac yn ceisio dwyn ein Torch Aur!"**

**"Y rheswm mae nhw yn ymosod arnom ni, ydi am ein bod ni yn gwladychu eu teyrnas nhw. Yn dinistro eu teyrnas nhw" meddai Meirion**

**"Paid a siarad rwts," gwaeddodd rhywun "dwi 'rioed di bod yna agos i'w teyrnas nhw."**

**"Ond mae dy sbwriel di wedi cyrraedd yno," meddai Meirion. "A fy sbwriel i. A sbwriel pob un ohono chi. Ein sbwriel ni ydi eu gelyn nhw."**

**Yn raddol sylweddolodd y trigolion fod Meirion yn iawn.**

**Gwnaed cytundeb i sicrhau na fyddai'r trigolion yn taflu eu sbwriel i deyrnas y Morfeirch. Cytunodd y Morferich i beidio ceisio dwyn y Dorch Aur byth eto. A bu heddwch. Roedd Meirion, fel bob arweinydd da wedi cofio geiriau Bendigeidfran. "A fo ben bid bont."**

**Bu Adar Rhiannon yn canu am sbel uwchben Harlech ac yn ystod yr amser hwnnw daeth Glesni yn iach unwaith eto, ac mi fyddai hi a Merion yn treulio llawer o amser yng nghwmni ei gilydd. Byddai pawb yn gwenu wrth eu gweld yn mynd am dro o gwmpas y fro, Glesni law yn llaw efo Meirion a'r Jac-dos yn herio'r gath !**

**Roedd Glesni wrth ei bodd yn gwrando ar Meirion yn adrodd ei hanes yn nhiriogaeth Y Morfeirch. Ond stori arall ydi honno. Stori i rhywun arall ei dychmygu a'i hysgrifennu. Y chi efallai ?**

**Cofiwch wrando ar yr adar. Rhai da yw'r adar am gario straeon o un lle i'r llall. Glywch chi'r Jac Dos yn crawcian?**

**A'r Gwylanod yn udo ? A'r drudwy yn trydar ?**
**Adar Harlech pob un. A phob un a stori i'w hadrodd.**

**Ac os 'da chi'n lwcus iawn, iawn, iawn, a gwrando yn astud dros ben, cewch glywed Adar Rhiannon fry, fry, fry yn yr awyr.**